

# Trefi SMART Powys

## Mewnwelediadau Ymwelwyr

Mae defnyddio Cisco Meraki i gynnig WIFI am ddim yn SMART, ond mae defnyddio'r system i gynnig mewnwelediadau amhrisiadwy yn fwy SMART fyth.

### Beth yw Cisco Meraki?

Mae Cisco Meraki yn system WIFI tref sydd wedi'i rheoli, ond mae hefyd yn fonitor ymwelwyr hollgynhwysol, sy'n cynnig mewnwelediadau ymwelwyr hynod werthfawr.

### Sut mae'n Gweithio?

Mae gan y rhan fwyaf o bobl ffôn symudol; yn ôl ei ddyluniad, mae ffôn yn chwilio am boeth-fannau WIFI drwy'r amser (fel WIFI Am Ddim y Dref) ac mae system fonitro Meraki yn casglu'r data o'r gweithgaredd hwn mewn ffordd glyfar.

Mae'r system yn gallu pennu lleoliad cyffredinol unigolyn, pa mor hir roedd wedi aros yno, a ph'un a yw wedi ymweld â'r dref o'r blaen ai peidio. Caiff hyn i gyd ei wneud yn ddiennw, ac mewn ffordd sy'n ddiogel o ran GDPR, drwy system sydd wedi'i dylunio gan gwmni uchel ei barch.

### Buddion i'r Dref

Er y bydd gan y dref eisoes syniad go dda o amseroedd prysur ac amseroedd tawelach, bydd system Maraki yn cofnodi niferoedd ymwelwyr manwl gywir dros amser. Mae hyn yn amhrisiadwy wrth wneud penderfyniadau yn y dref mewn perthynas ag amseroedd agor a digwyddiadau, ac wrth ystyried gwelliannau cyffredinol.


Bob mis, gall cydlynnydd y dref gasglu'r holl wahanol fewnwelediadau o'r dangosfwrdd sydd wedi'i gynnwys, a'u rhannu â pherchnogion busnes a rhanddeiliaid eraill. O'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno, gall y dref wneud rhagamcanion rhesymol ynghylch niferoedd ymwelwyr yn y dyfodol er mwyn cynllunio digwyddiadau ac ystyried sut i gynyddu faint o amser mae ymwelwyr yn ei dreulio yn y dref (amser aros), ac felly, o bosib, gallant gynyddu faint o arian sy'n cael ei wario yn y dref.

Gellir defnyddio'r map gwres ymwelwyr i ddeall sut mae pobl yn symud o amgylch y dref dros amser, a gall hyn arwain at newidiadau i feysydd parcio, cyfleusterau toiledau a gwell arwyddion, eto, gyda'r nod o gynyddu amser aros ymwelwyr.


### Ble mae'r System ar Gael

Mae'r system fewnwelediad wedi'i chynnwys yn System WIFI Tref Cisco Meraki

I ddechrau, cysylltwch â Hwb Menter Ffocws Casnewydd drwy'r wefan [focusenterprise hubs.wales](http://focusenterprise hubs.wales) neu ffoniwch **01686 806349**



Visitor Analysis



Defnyddio'r map gwres

